

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod Cyngor Dinas Casnewydd
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Casnewydd a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi bod yn symud trwy gyfnod o newid sylweddol â phenodiadau newydd (rhai dros dro) ar lefelau uchaf y sefydliad. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer syniadau ffres ond hefyd yn peri risgiau. Mae'r cyngor wedi gwneud penderfyniadau beiddgar ac arloesol o ran y gwasanaethau i blant yn ystod y blynyddoedd diweddar, yn enwedig o ran datblygu ymgysylltiad trydydd sector gyda Barnardo's. Bydd yn bwysig rhagweld a lliniaru risgiau yn feirniadol, gwerthuso canlyniadau a sicrhau bod gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy.

Mae'r cyngor wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o ymgysylltu a gweithio gyda'r trydydd sector. Mae ei berthynas gyda'r bwrdd iechyd yn heriol mewn rhai meysydd o ddarparu gwasanaethau. O ystyried y pwysau ariannol, mae'n iawn bod y cyngor angen cael ei argyhoeddi o gostau a manteision unrhyw drefniadau y mae'n cytuno iddynt.

Oedolion

Gorwariwyd y gyllideb ar gyfer y gwasanaethau i oedolion yn 2012/13.

Yn gyffredinol, mae'r cyngor yn darparu gofal a chefnogaeth rhesymol, ond mae uwch reolwyr yn cwestiynu gwerth rhai o'r trefniadau etifeddiaeth bellach. Mae hyn yn arbennig o wir o ran ei ymrwymiad i raglen Eiddilwch Gwent a'r premiymau ansawdd a delir ar gyfer lleoedd mewn cartrefi gofal, gan fod y ddau ohonynt yn ymddangos yn ddrud. Mae gweithio gyda'r adran iechyd yn her. Adlewyrchir hyn gan y nifer fawr a chynyddol o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty, sy'n awgrymu nad yw llwybrau gofal a gweithio rhyngasiantaeth ar eu gorau. Ceir

pwysau hefyd o ran faint o leoliadau preswyl sydd ar gael yn yr ardal. Mae angen adolygu hyn yn ofalus.

Mae'n bosibl bod y gallu i ddarparu gwasanaethau i oedolion yn broblem. Yn 2012/13, ni adolygodd y cyngor gynlluniau gofal fel y dylai ac felly ni all fod yn sicr fod pobl yn derbyn gwasanaethau sy'n dal i fod yn briodol i'w hanghenion, na bod adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol.

Plant

Mae perfformiad yn gymysg yn y gwasanaethau i blant. Er bod rhai dangosyddion perfformiad yn gadarnhaol, mae eraill yn awgrymu risg sylweddol, yn enwedig trosiant staff uchel, llai o asesiadau cychwynnol yn cael eu cynnal, y gyfradd ail-atgyfeirio uchel a chynyddol, y nifer fechan o blant sy'n cael eu gweld ar eu pennau eu hunain yn rhan o'r asesiadau cychwynnol a'r oediadau cyn cynnal cyfarfodydd grŵp craidd.

Ceir tystiolaeth eglur o amrywiaeth eang o wasanaethau ataliol y mae'r cyngor wedi eu datblygu mewn cydweithrediad â Banardo's a bod y rhain yn cael effaith gadarnhaol i bobl. Er bod nifer o dargedau yn cael eu cyrraedd ac y rhagorir arnynt, bu gan AGGCC bryderon am ansawdd y broses o wneud penderfyniadau mewn rhai achosion. Mae'r trosiant uchel parhaus o aelodau staff gofal plant rheng flaen yn arwain at golli aelodau staff a rheolwyr profiadol ac mae'r ffaith fod cyfran uwch o aelodau staff llai profiadol yn rheoli llwythi achosion ac atgyfeiriadau a dderbynnir yn sgil hynny yn debygol o fod yn faes lle bydd risg. Fel y nodwyd, mae gan y cyngor gyfradd ail-atgyfeirio uchel a chynyddol. Er bod adolygiad wedi ei gynnal, mae angen deall y patrwm hwn yn iawn a'r rhesymau y tu ôl iddo er mwyn sicrhau bod y trothwyon cywir yn cael eu defnyddio.

Mae'r cyngor wedi rheoli pwysau i blant ddechrau derbyn gofal ac ni welwyd y cynnydd a gafwyd mewn mannau eraill ledled Cymru.

Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr i'r cyngor wedi ei strwythuro'n dda ac yn fanwl. Mae'n cyflwyno golwg hyderus ar effeithiolrwydd ac arloesedd o ran y gwasanaethau i blant. Mae'r cyfarwyddwr yn cydnabod heriau o ran y gwasanaethau i oedolion a phwysau ar gyllidebau. Mae'r gwerthusiad hwn yn cydnabod y materion a godwyd gan y cyfarwyddwr ac yn rhoi pwyslais ar y rhain, ynghyd â materion ychwanegol yr ystyrir eu bod yn berthnasol i Wasanaethau Cymdeithasol Casnewydd.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Pwysau ariannol yn y gwasanaethau i oedolion a'r her o gydweithredu gyda'r adran iechyd.

- Y newidiadau mewn arweinyddiaeth a phenodiad dros dro y cyfarwyddwr strategol statudol, a phennaeth integredig y gwasanaethau i blant. Gallai hyn fod yn her i lywodraethu cryf a chyson.
- Penodi pennaeth integredig y gwasanaethau i blant gyda Barnardo's. Er bod y lefel uchel hon o integreiddio gyda'r trydydd sector yn amlwg yn arloesol ac yn cynnig cyfleoedd, ceir risgiau posibl gan gynnwys gwrthdaro o ran buddiannau.
- Trosiant staff uchel parhaus yn y gwasanaethau i blant ac anghydbwysedd gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso yn effeithio ar ysbryd a diffygion o ran sgiliau.
- Ymateb i atgyfeiriadau a dderbynnir. Mae nifer o ddangosyddion yn awgrymu risg posibl. Yn arbennig, mae cyfraddau ail-atgyfeirio uchel yn awgrymu nad yw prosesau gwneud penderfyniadau a throthwyon asesu yn gywir.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd o ran y meysydd a nodwyd y llynedd.

Oedolion

Mae aelodau staff yn gadarnhaol am y cynnydd o ran trosglwyddo i'r gwasanaethau i oedolion a gyflawnwyd trwy benodi gweithiwr pontio penodedig yn y tîm plant anabl.

Gwnaed penderfyniad i gadw gwasanaeth seibiant New Willows ar agor tra bod modelau gwasanaeth newydd yn cael eu harchwilio, gan gynnwys ehangu cylch gwaith y cynllun Cysylltu Bywydau. O ganlyniad, mae'n ymddangos bod seibiant i oedolion ifanc wedi gwella.

Ystyriwyd anghenion gofalwyr sy'n oedolion yn ystod y flwyddyn ac mae grŵp o ofalwyr yn nodi mwy o gefnogaeth gan y gweithiwr datblygu gofalwyr a benodwyd.

Plant

Ceir anawsterau cydnabyddedig o ran asesu gofalwyr ifanc. Bydd AGGCC yn archwilio hyn ymhellach gyda'r cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod.

Adolygwyd effeithiolrwydd ymyrraeth ataliol a chynnar (adroddiad trosolwg y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, Mawrth 2013) a chynhaliwyd archwiliad o broses gwneud penderfyniadau a throthwyon y tîm dyletswydd ac asesu.

Mae'r tîm 16 oed a hŷn wedi datblygu cwrs a ariannwyd gan yr adran gwaith a phensiynau i bobl ifanc wella eu rhagolygon o gael hyfforddiant neu gyflogaeth. Hefyd, gall pobl ifanc ddefnyddio gwasanaeth trydydd sector sy'n darparu cefnogaeth seicolegol i'r rhai sy'n gadael gofal. Byddai gennym ddiddordeb mewn gwerthusiad o ganlyniadau'r gefnogaeth ychwanegol hon.

Arfer da a nodwyd

Rydym wedi cydnabod o'r blaen y bartneriaeth gyda'r trydydd sector o ran ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau ataliol sydd ar gael i deuluoedd a gwaith Canolfan Serennu o ran cefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

- Mae atgyfeiriadau i bobl ifanc digartref yn trosglwyddo'n uniongyrchol i'r tîm 16 oed a hŷn heb fynd drwy'r tîm dyletswydd. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc yn cael mynediad cynnar at bobl sy'n deall eu hanghenion ac at yr adnoddau sydd ar gael.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

Cafodd Casnewydd ei gynnwys yn adolygiad cenedlaethol AGGCC o ganlyniadau i blant mewn angen/plant sy'n derbyn gofal ym mis Tachwedd 2012. Darparwyd adborth unigol a nododd arfer da o ran yr offeryn "arwyddion diogelwch" ac ymateb defnyddwyr gwasanaeth i'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD). Nododd bryderon o ran ansawdd a thystiolaeth o ddadansoddi beirniadol o asesiadau cychwynnol a chraidd, gwneud penderfyniadau cynnar, ynghyd â phroblemau o ran llwythi achosion a'r gweithlu. Cwblhawyd arolygiad AGGCC o wasanaethau i blant a theuluoedd ym mis Chwefror 2013. Roedd hwn yn ystyried effeithiolrwydd ymyriad ataliol/cynnar a chanfu arwyddion cynnar o gynnydd. Nododd drosiant staff uchel iawn hefyd. Roedd y broses arolygu yn ystyried sut y gwneir penderfyniadau ac arfer mewn achosion, gan nodi rhai pryderon difrifol a'u dwyn i sylw rheolwyr yn y gwasanaethau i blant.

Mae AGGCC wedi ymweld ag amrywiaeth o dimau gofal plant rheng flaen. Roedd y rhain yn cynnwys y tîm dyletswydd ac asesu, timau amddiffyn plant, y tîm plant anabl a'r tîm 16 oed a hŷn. Roeddem eisiau deall sut yr oedd yr agenda newid wedi "ymsefydlu" a sut yr oedd materion recriwtio a chadw staff yn effeithio ar aelodau staff. Rydym hefyd wedi cyfarfod â rheolwyr gwasanaeth yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant a'r swyddog sicrhau ansawdd, y cyfarwyddwr a phennaeth y gwasanaethau i blant.

Rydym wedi cyfarfod â rheolwr Barnardo's ac aelodau staff o'r Tîm Cymorth i Deuluoedd (TCD), y gwasanaeth Asesu a Chynorthwyo Teuluoedd (GACHT) a Phlant ag Anghenion Ychwanegol (PAYau) i ddeall yr amrywiaeth o wasanaethau ymyrraeth a chefnogaeth gynnar. Rydym hefyd wedi cyfarfod â SNAP Cymru, prosiect eiriolaeth Be Heard a chynrychiolwyr o Fforwm Gofalwyr Casnewydd i gael dealltwriaeth o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth.

Roedd y gweithgareddau hyn yn ychwanegol i arolygiadau AGGCC o wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu darparu gan y cyngor.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Nodir nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod.

- Effaith pwysau ar gyllidebau yn y gwasanaethau i oedolion.
- Cydweithredu â'r adran iechyd.
- Gwasanaeth i hyrwyddo/cefnogi iechyd meddwl a lles oedolion a phlant.
- Nodi gofalmwr ifanc a'u cefnogi.
- Oedi wrth ryddhau o'r ysbyty.
- Rheoli atgyfeiriadau yn y gwasanaethau i blant.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o'r broses o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.
- Gwaith gyda Swyddfa Archwilio Cymru i ddechrau cwmpasu adolygiad o effeithiolrwydd prosiect Eiddilwch Gwent.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Cytunodd Casnewydd i gynnal partneriaeth arwyddocaol ynglŷn â threfniadau Eiddilwch Gwent. Nid yw hyn wedi cyflawni i foddhad yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi arwain at broblemau sylweddol o ran gallu yng ngwasanaethau'r awdurdod lleol. Mae Casnewydd yn adolygu ei sefyllfa o fewn y bartneriaeth, y defnydd o'r meini prawf cymhwyso a'r opsiwn i leihau'r galw cyfredol am wasanaethau penodol. Mae'r awdurdod lleol yn teimlo bod angen iddo sicrhau cydraddoldeb digonol yn ei berthynas gyda'r adran iechyd.

Mae gwerthusiad o ddwy flynedd gyntaf y rhaglen eiddilwch ar draws y pum awdurdod lleol wedi cychwyn.

Caewyd rhai gwasanaethau dydd i oedolion yn ystod y flwyddyn yn rhan o agenda foderneiddio ehangach. Ar gyfer y dyfodol, mae Casnewydd yn datblygu strategaeth gyfannol ar gyfer y gwasanaethau i oedolion i ddisodli strategaeth fwy tameidiog y blynyddoedd blaenorol. Rydym wedi gweld y ddogfen ddrafft o fis Gorffennaf 2013 yn nodi manylion y weledigaeth bum mlynedd ar gyfer y gwasanaethau i oedolion.

Mae iechyd meddwl oedolion yn rhan o ddatblygiad strategaeth ar gyfer Gwent gyfan a bydd yn faes o ddiddordeb i ni yn 2013/14. Disgwylir i swydd reoli a arweinir gan yr adran iechyd gael ei sefydlu ddechrau 2014.

Mae integreiddio'n llai datblygedig o ran pobl ag anawsterau dysgu, lle mae'r adran iechyd yw'r asiantaeth arweiniol a bydd arweinwyr yr awdurdod lleol yn archwilio ymhellach y manteision hirdymor posibl o integreiddio yn y maes gwasanaeth hwn.

Plant

Mae Casnewydd wedi parhau i ddatblygu ei berthynas partner a ffefrir gyda Barnardo's trwy gydol 2012/13. Mae gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn cael eu rheoli gan Barnardo's a'u hariannu trwy Deuluoedd yn Gyntaf a ffynonellau ariannu eraill. Mae'r gwasanaeth TICD yn parhau ac, ar ddiwedd y cyfnod prawf, disgwylir iddo gael ei gyflwyno ledled Gwent. Mae'r TCD a'r GACHT yn cael eu darparu yn rhan o wasanaethau integredig gyda Barnardo's. Mae'r timau hyn yn cynnwys cymysgedd o aelodau staff Barnardo's a'r awdurdod lleol. Darperir gwasanaethau eraill gan Barnardo's ar ei ben ei hun.

Mae'r dull hwn yn cynnig amrywiaeth sylweddol o gymorth uniongyrchol dwys i deuluoedd. Efallai y bydd angen monitro'r newid i gynyddu arbenigedd timau cymorth a swyddogaethau aelodau staff unigol i sicrhau bod trefniadau wedi eu cydgysylltu ac yn gwella canlyniadau i bobl. Cymeradwyodd adroddiad AGGCC yn 2013 y pwyslais ar gyfrifoldeb rhieni am y broses newid a'r model "pellter a deithiwyd".

Mae Casnewydd wedi cynnal ei niferoedd o blant sy'n derbyn gofal yn 2012/13. Roedd targed i leihau'r boblogaeth hon ac mae'r amrywiaeth o wasanaethau ataliol a chymorth i deuluoedd wedi ei chynllunio i leihau'r tebygolrwydd y bydd angen rhoi llety i bobl ifanc neu y bydd angen iddynt fod yn destun ymyraethau gorfodol. Fodd bynnag, dylid cymharu'r sefyllfa gyson hon â chefnidir o gynnydd mwy sylweddol mewn rhai awdurdodau tebyg.

Cyhoeddwyd adroddiad drafft a gomisiynwyd ar y cyd ar wahaniaethau yn y boblogaeth o rai sy'n derbyn gofal gan Cordis Bright ym mis Ebrill 2013. Roedd Casnewydd yn un o bum awdurdod lleol a samplwyd gan ddefnyddio dull astudiaeth achos. Ystyriwyd bod strategaeth wedi ei diffinio'n eglur ac ymrwymiad arweinyddiaeth i leihau niferoedd yn arwyddocaol ar gyfer sicrhau gostyngiad mewn galw. Mae'r gwaith ymchwil hefyd yn nodi bod y bartneriaeth gyda Barnardo's i ddarparu gwasanaethau ataliol a chymorth yn ddefnyddiol i sicrhau gostyngiad i'r boblogaeth derbyn gofal bosibl. Fodd bynnag, nodir y dylid bod yn ofalus, yn ogystal â phwysigrwydd sgiliau digonol gan weithwyr cynorthwyol llai cymwysedig i nodi a gweithio mewn amgylchiadau lle ceir mwy o risg mewn teuluoedd.

Ni chwblhawyd integreiddiad arfaethedig timau Anabledd Plant Casnewydd a Thorfaen ac mae'r sefyllfa fel ag y mae yn un o gyd-leoli yn hytrach nag integreiddio. Cynhaliwyd ymgynghoriad aelodau staff yn ystod y flwyddyn a nodwyd y gwahaniaethau mewn prosesau atgyfeirio, systemau TG a threfniadau rheoli llinell fel rhwystrau. Mae'n ymddangos bod ansicrwydd bellach o ran y

fantais y mae integreiddiad llawn yn ei chynnig i ddefnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i elwa o leoliad agos gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yng Nghanolfan Serennu a'r cyfleusterau rhagorol a ddarperir yn yr adeilad.

Mae aelodau staff yn ffyddiog bod y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i deuluoedd yn well oherwydd eu perthynas waith gyda'r adran iechyd a PAYau, a ariennir trwy Deuluoedd yn Gyntaf ac a reolir gan Barnardo's. Maent yn ffyddiog bod y bwch traddodiadol rhwng gwasanaethau i blant anabl a gwasanaethau i oedolion anabl yn cael ei leihau'n effeithiol trwy gael mwy o hyfforddiant annibyniaeth gyda phobl ifanc, i'r graddau na fydd rhai ohonynt angen gwasanaethau i oedolion. Mae aelodau staff hefyd yn sôn am berthynas adeiladol gyda'r gweithiwr pontio yn y gwasanaethau i oedolion.

Mae'r tîm 16 oed a hŷn yn hyderus y gall gadw mewn cysylltiad â'r holl bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghasnewydd, a gadarnheir gan y wybodaeth am berfformiad a dderbyniwyd ar gyfer 2012/13. Neilltuwyd aelodau staff ychwanegol i'r tîm. Caiff pobl ifanc yng Nghasnewydd ddefnyddio gwasanaeth Gweithredu dros Blant sy'n gallu darparu cefnogaeth seicolegol ar yr adeg hon yn eu bywydau. Caiff pobl ifanc hefyd fynd ar gwrs a ariennir trwy grant gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i'w paratoi ar gyfer hyfforddiant/ cyflogaeth.

Mae'r tîm 16 oed a hŷn bellach yn derbyn atgyfeiriadau uniongyrchol o bobl ifanc digartref o'r system ddyletswydd. Mae hwn yn ddull rhagweithiol a phragmatig o gefnogi pobl ifanc pan y byddai'n bosib i'r tîm derbyn prysur beidio â rhoi sylw i'w hanghenion.

Meysydd o gynnydd

- Pontio ar gyfer pobl ifanc ag anableddau.
- Ymateb i bobl ifanc digartref trwy fynediad uniongyrchol at y tîm 16 oed a hŷn.

Meysydd i'w gwella

- Ymateb mwy prydlon i oedolion a atgyfeirir i wasanaethau'r awdurdod lleol trwy raglen Eiddilwch Gwent.

Cael gafael ar gymorth:

Yn ystod ymweliadau eleni, mynegodd gweithwyr proffesiynol allanol, defnyddwyr gwasanaeth a'u heiriolwyr i gyd bryderon am hygyrchedd, prosesau a chyfleusterau yn yr Orsaf Wybodaeth. Mae pobl wedi disgrifio anawsterau wrth gysylltu dros y ffôn. Maent yn poeni am y diffyg preifatrwydd wrth siarad ag aelodau staff mewn bythau a threfniadau aros ar gyfer cyfarfodydd. Nid yw'r aelodau staff awdurdod lleol i ni siarad â hwy yn hoffi'r broses cadw lle electronig i gael mynediad at ystafelloedd cyfweld. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn

ymwybodol o hyn sy'n golygu yr ystyrir bod sicrhau preifatrwydd yn ormod o ymdrech. Ystyrir bod yr ystafell oddi ar yr ardal gyhoeddus a ddefnyddir ar gyfer cynadleddau adolygu amddiffyn plant yn anaddas ar gyfer y diben hwn a byddem yn cytuno â'r farn hon. Roedd safbwyntiau tebyg wedi eu cynnwys mewn adroddiad AGGCC dilynol ym mis Chwefror 2013 ac mae'n amlwg bod pryderon yn parhau.

Rydym yn ymwybodol mai cyfleuster corfforaethol yw'r Orsaf Wybodaeth ac nad yw dan reolaeth uniongyrchol y gwasanaethau cymdeithasol. Serch hynny, rydym o'r farn fod y ffaith nad yw'r rhai i ni siarad â hwy yn hoff o'r ffordd mae'r adeilad yn gweithio yn feirniadaeth ddilys, ac efallai nad yw'n diwallu anghenion ac yn bodloni hawliau pobl sy'n agored i niwed yn llawn o ran preifatrwydd ac urddas. Roedd rhai aelodau staff i ni siarad â hwy yn hoffi agweddau ar y trefniadau gweithio hyblyg ac efallai bod y newidiadau hyn wedi eu hymsefydlu.

Oedolion

Rydym yn deall nad yw ymdrechion y tîm Eiddilwch i gyd-fynd â threfniadau'r ysbyty a'r gwasanaeth iechyd wedi bod yn gwbl llwyddiannus ac mae'r ysbyty wedi newid ei system ryddhau. Mae pennaeth y gwasanaeth o'r farn bod hyn wedi cyfrannu at ddyblu nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn 2012/13. Dyma'r nifer uchaf yng Nghymru o bell ffordd erbyn hyn, o'i gymharu â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru namyn un. Rydym yn deall bod yr awdurdod lleol wedi rhoi rheolwr yn yr ysbyty yn ystod y misoedd diwethaf (2013/14) gyda'r nod o wneud gwelliannau.

Mae tîm adnoddau cymunedol yr awdurdod lleol, a grëwyd i ddarparu rhaglen Eiddilwch Gwent trwy dderbyn atgyfeiriadau o ysbytai (a Meddygon Teulu) wedi cael trafferthion gallu yn 2012/13. Dywed yr awdurdod lleol bod camau i ddatrys hyn yn gwella'r sefyllfa yn 2013. O ystyried effaith arosiadau hirfaith yn yr ysbyty ar bobl, byddem yn cymeradwyo'r angen i ganolbwyntio ar y problemau hyn.

Mae prydlondeb adolygiadau cynlluniau gofal wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn dros y tair blynedd diwethaf, tra bod cyfartaledd Cymru wedi cynyddu'n raddol. Yn 2012/13, adolygwyd cynlluniau gofal llai na dau o bob tri o bobl yng Nghasnewydd a chanddynt gynllun gofal, a hwn oedd y ffigur canran ail isaf yng Nghymru. O ganlyniad, efallai nad yw pobl yn derbyn y gofal mwyaf priodol gan nad yw eu hanghenion yn cael eu hail-asesu a bydd hyn yn effeithio ar ganlyniadau a lles.

Mae'r amser aros i bobl dderbyn asesiadau ar gyfer addasiadau wedi gwella yn 2012/13, ond mae'n dal i fod yn faes i'w wella.

Disgrifiodd grŵp bach o ofalwyr brofiadau cymysg o asesiadau gan gynnwys safbwynt bod amseroedd ymateb yn gyflymach mewn sefyllfaoedd brys, sy'n awgrymu blaenoriaethu priodol.

Plant

Yn gynharach yn 2013, bu newidiadau i'r pwyntiau trosglwyddo rhwng y tîm dyletswydd ac asesu, y tîm amddiffyn plant a'r timau plant sy'n derbyn gofal. Bydd y canlyniadau'n cael eu gwerthuso, ond mae'r newidiadau yn rhagweld newidiadau i gyfraith gyhoeddus ac yn dangos cynllunio ac ymatebolrwydd. Mae rheolwyr y timau'n credu bod hyn yn well i blant.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn disgrifio cynnydd sylweddol o gysylltu â'r tîm dyletswydd ac asesu er bod nifer yr atgyfeiriadau wedi gostwng. Mae newid i'r broses o wneud penderfyniadau yn golygu y gellir trosglwyddo cysylltiadau i'r tîm atal, yn hytrach na'u dosbarthu fel atgyfeiriad, oni bai fod elfen ddiogelu eglur. Mae data perfformiad yn dangos y gwneir penderfyniad ar bron bob atgyfeiriad o fewn un diwrnod gwaith.

Bu gostyngiad i gyfran yr atgyfeiriadau sy'n arwain at gwblhau asesiad cychwynnol. Mae hyn yn groes i'r tueddiad yng Nghymru ac yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Efallai y bydd angen ystyried hyn ymhellach; mae llai o asesiadau'n cael eu cynnal mewn modd cymesur, hyd yn oed lle mae atgyfeiriadau wedi gostwng ac wedi bod yn destun sgrin gychwynnol at arallgyfeirio at y tîm atal pan fo'n bosibl.

Mae data ar berfformiad o ran asesiadau cychwynnol yn dynodi cyfradd dda o ran cwblhau yn unol ag amserlenni. Fodd bynnag, nid yw'r gweithiwr cymdeithasol wedi gweld y plentyn yn un o bob tri asesiad a gwblheir. Mae hyn yn gynnydd ers y flwyddyn cynt ac yn fwy na chyfartaledd Cymru. Mae gweithwyr cymdeithasol ac uwch reolwyr wedi cwestiynu'r ystadegyn hwn. Mae archwiliad o ansawdd a gynhaliwyd yn arwain yr awdurdod lleol i gredu y gallai fod problemau gydag arfer cofnodi a chasglu data. Bydd angen i'r tîm arweinyddiaeth fod yn fodlon bod digon o asesiadau cychwynnol yn cael eu cynnal, a'u bod yn ddigon trylwyr.

Mae data ar berfformiad yn dynodi mai'r gyfradd ail-atgyfeiriadau a dderbynnir yw'r uchaf yng Nghymru. Awgrymir bod hyn yn nodwedd o'r gwahanol ddiffiniadau o ail-atgyfeiriadau ar draws awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau ar gyfer Casnewydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn cynt, er i atgyfeiriadau gael eu hailddiffinio ac mae'r ystadegyn yn ymwneud â chyfran yn hytrach na rhif crai. Daeth adolygiad mewnol i'r casgliad bod trothwyon y tîm dyletswydd ac asesu yn foddhaol ac nid oes cyfradd uchel o atgyfeirio yn ôl o'r tîm atal.

Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y gyfradd uchel o ail-atgyfeiriadau yn rheswm i bryderu a dylid adolygu hyn eto fel mater o flaenoriaeth.

Mae Casnewydd yn perfformio'n dda o ran cwblhau asesiadau craidd yn unol ag amserlennu o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

Bu cynnydd sylweddol i nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghasnewydd yn 2012/13 o'i gymharu â'r flwyddyn cynt. Mae hyn oherwydd bod plant yn aros ar y gofrestr am fwy o amser, yn hytrach na bod mwy o blant yn cael eu rhoi arni yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, dywed y cyfarwyddwr y bu cynnydd mawr i nifer y cofrestriadau yn ystod chwarter cyntaf 2013/14.

Bu rhywfaint bach o ostyngiad yn 2012/13 i gyfran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd yn unol ag amserlenni, er bod Casnewydd yn parhau i berfformio'n unol â chyfartaledd Cymru. Ar y llaw arall, mae mwy o grwpiau craidd wedi bod yn brydlon eleni, ond mae'n dal i fod yn faes i'w wella.

Diwygiwyd y meini prawf ar gyfer cymorth gan y tîm plant anabl ar ôl sefydlu'r tîm PAYau a reolir gan Barnardo's. Cynyddodd achosion agored i'r tîm plant anabl i ddechrau cyn gostwng yn eithaf sylweddol yn 2012/13. Esboniwyd bod y cynnydd oherwydd bod atgyfeiriadau ar gyfer therapi galwedigaethol yn cael eu neilltuo ar gyfer asesiad cychwynnol, ond nid yw hynny'n digwydd bellach. Mae rhan o'r gostyngiad ers hynny oherwydd i garfan o bobl ifanc gael eu pen-blwydd yn 18 a gadael y gwasanaeth. Rheswm arall am y gostyngiad fydd PAYau yn gweithio gyda'r rhai ag anableddau llai sylweddol. Bydd y cynnydd a adroddwyd i ddifrifoldeb a chymhlethdod achosion yn y tîm plant anabl o ganlyniad i'r newidiadau hyn hefyd. Yr athroniaeth eglur yw lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau cymdeithasol a hwyluso'r defnydd o adnoddau cymunedol cyffredinol.

Meysydd o gynnydd

- Rhywfaint o welliant i amseroedd aros am asesiadau ar gyfer addasiadau.
- Proses atgyfeirio a meini prawf diwygiedig ar gyfer y gwasanaethau i blant.
- Amseroedd cwblhau ar gyfer asesiadau craidd.

Meysydd i'w gwella

- Trosglwyddo gofal o'r ysbyty.
- Ystyriaeth bellach o'r gyfradd ail-atgyfeirio a'r sicrwydd am ansawdd y penderfyniadau a wneir.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Yn gyffredinol, mae Casnewydd wedi lleihau nifer yr oedolion y cynigodd wasanaethau iddynt yn 2012/13, am flwyddyn arall. Mae'r cyngor wedi cwestiynu a yw trothwyon wedi cael eu diwygio: barn pennaeth y gwasanaeth yw y bu defnydd mwy cyson o feini prawf cymhwyso cyfredol. Er bod uchelgais i leihau hyn ymhellach yn 2013/14, cydnabyddir efallai na fydd yn bosibl gwneud hyn yn

ddiogel a byddai ffigurau o'r chwarter cyntaf yn dynodi bod y niferoedd yn sefydlogi.

Bu rhyw fymryn o ostyngiad i niferoedd y bobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghasnewydd yn 2012/13; mae hyn yn cyd-fynd â'r tueddiad yng Nghymru.

Mae gwariant yr awdurdod lleol ar leoliadau nyrsio i bobl hŷn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ac awdurdodau cyfagos. Mae ffioedd a delir i'r sector preifat ar gyfer trigolion Casnewydd yn uwch na rhai o'r awdurdodau cyfagos, oherwydd y ffaith fod Casnewydd yn cymryd rhan yn y prosiect Ffioedd Ansawdd Cartrefi Gofal gyda Thorfaen. Amlygwyd hwn fel maes o arfer da yn ein hadroddiad ar gyfer 2011/12, fel menter i wella ansawdd. Fodd bynnag, o'r dystiolaeth a gasglwyd trwy waith rheoleiddio AGGCC, byddem yn cwestiynu a ddarparwyd gofal o ansawdd ychwanegol bob amser er bod ffioedd uwch yn cael eu talu.

Mae Casnewydd yn rheoli pum cartref gofal i oedolion yn uniongyrchol. Mae ein gwaith rheoleiddio wedi canfod bod sawl elfen o ofal o ansawdd da yn cael eu darparu i breswylwyr. Mae dau gartref wedi bod heb reolwyr cofrestredig am gyfnod hir o amser sy'n ddiffyg cydymffurfiad eglur â rheoliadau cartrefi gofal. Rydym yn argymhell y rhoddir sylw i gynllunio datblygiad a bod y broses gofrestru yn cael ei chychwyn yn gyflymach ar gyfer rheolwyr newydd. Nodwyd rhai problemau gennym o ran safonau addurno cyffredinol yng nghartrefi'r awdurdod lleol. Golygodd ataliad ar wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol na chafodd offer hanfodol ei newid yn ôl yr angen. Byddem yn disgwyl i'r awdurdod lleol gynnal yr un safonau ar gyfer ei gartrefi gofal ei hun ag y mae'n eu disgwyl wrth gomisiynu yn y sector annibynnol.

Mae arolygiadau rheoleiddio wedi amlygu rhai diffygion yng ngweithdrefnau'r ddau wasanaeth awdurdod lleol sy'n darparu gofal cartref, er bod safon y gofal a hybu annibyniaeth yn uchel. Rydym yn ymwybodol o broblemau sylweddol o ran gallu yn CRT, a drafodwyd uchod. Rydym wedi cyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfiad i'r ddau wasanaeth o ran cofnodi meddyginiaeth ac asesiadau risg. Roedd yn bryder i ni y cymerwyd cyfnod sylweddol i fynd i'r afael â'r materion hyn, er bod problemau cydymffurfiad wedi eu datrys bellach.

Ystyrir bod teleofal yn adnodd allweddol ar gyfer pecynnau gofal yn y gymuned ac fe'i had-drefnwyd rhywfaint yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan sicrhau arbedion. Y bwriad oedd ehangu ei ddefnydd ond ni ddigwyddodd hyn yn 2012/13, pan roedd y defnydd yn sylweddol is na tharged uchel. Mae gofalwyr wedi mynegi pryder y gallai'r ymateb i alwadau newid o ganlyniad i ail-gontractio yn 2013/14 ac y gallai roi mwy o bwysau ar y gwasanaeth ambiwlans. Efallai y bydd angen archwilio hyn ymhellach.

Cynorthwyr y mwyafrif llethol o oedolion ag anabledd corfforol neu synhwyrdd yng Nghasnewydd yn y gymuned. Ceir cyfradd gymharol uchel o oedolion Casnewydd ag anabledd dysgu mewn gofal preswyl; uchel iawn o'i gymharu â rhai

awdurdodau cyfagos a rhyw fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Gallai hwn fod yn fater i'w adolygu er mwyn sicrhau bod cymorth i bobl ag anableddau dysgu a/neu'r adnoddau sydd ar gael yn cyd-fynd â'r syniadau g am y cymorth gorau.

Mae gofalwyr wedi disgrifio cyfyngiadau ar eu defnydd o'r grant gofalwyr hyblyg. Mae'r awdurdod lleol wedi rhagori ar ei darged ar gyfer defnyddio taliadau uniongyrchol i bobl i hybu annibyniaeth.

Mae angen ail-archwilio gwybodaeth am berfformiad o ran cymorth a ddarperir i ofalwyr oedolion ac asesiadau a gynhaliwyd gan ei bod yn ymddangos bod camgymeriad sylweddol yn y data a gyflwynwyd.

Mae gofalwyr yn gadarnhaol iawn am y cymorth a ddarparwyd gan y gweithiwr datblygu gofalwyr ac yn cydnabod effaith y gweithiwr asesu gofalwyr ar gwblhau asesiadau. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymwybodol o'r "hyrwyddwyr gofalwyr" a ddisgrifir gan y cyfarwyddwr yn ei adroddiad. Mae'r gofalwyr y siaradwyd â hwy yn teimlo bod eu hanghenion yn uwch ar yr agenda nag o'r blaen ac roeddent yn gadarnhaol iawn am y cyfarwyddwr yn hyn o beth. Maent hefyd yn gadarnhaol am y cynllun Cysylltu Bywydau er eu bod yn croesawu parhad gweithredu New Willows i'r rhai ag anghenion mwy cymhleth sydd angen seibiant. Amlygwyd "bwlch" ganddynt yn y trefniadau pontio rhwng cymorth yr awdurdod lleol a chymorth a ariennir gan yr adran iechyd a diffyg hyfforddiant gan yr awdurdod lleol ar godi a chario.

Plant

Ni siaradwyd â gofalwyr ifanc wrth baratoi ar gyfer yr adroddiad hwn ond byddwn yn ceisio cyfarfod â nhw yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae pennaeth y gwasanaeth yn cydnabod na lwyddodd y prosesau asesu a chynorthwyo gofalwyr ifanc i fodloni disgwyliadau yn 2012/13.

Mae'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir mewn cydweithrediad â Barnardo's wedi cynyddu ac mae'r ddarpariaeth yn sylweddol ac yn gymhleth o ran maint a graddau integreiddio, o'i chymharu â darpariaeth trydydd sector mewn awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae amrywiaeth sylweddol o wasanaethau cymorth arbenigol a mwy cyffredinol i deuluoedd ar waith bellach.

Mae Casnewydd yn ymgynghori drwy'r sefydliad eiriolaeth plant. Mae swyddogion adolygu annibynnol yn sicrhau y darperir eiriolwr i bobl ifanc pan fo'n briodol. Gall pobl ifanc gymryd rhan drwy'r Cyngor Plant Mewn Gofal (CPMG) a'r Bwrdd Diogelu Iau. Yn 2012/13, gwnaeth y CPMG gyflwyniad i'r cyngor gan ymateb i'r addunedau a gafodd eu cynnwys yn y Strategaeth Rhianta Corfforaethol. Roedd hwn yn cynnwys safbwyntiau pobl ifanc ar ddewis a rheolaeth o ran sut y cynhelir adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae'r cyfrifoldeb am hwyluso'r CPMG wedi symud yn "fewnol" (fe'i hwyluswyd gan Be Heard gynt) ac rydym yn gobeithio na

fydd hyn yn effeithio ar lais pobl ifanc. Gallai lefel presenoldeb pobl ifanc mewn cyfarfodydd amddiffyn plant fod yn faes i roi sylw iddo.

Bu nifer o newidiadau i strwythur timau GICD ac i'r pwyntiau mynediad/trosglwyddo rhwng timau. Mae'r tîm argyfwng wedi cael ei ymgorffori i'r TICD ac mae'r tîm hwn a'r TCP bellach dan reolaeth rheolwr sydd newydd ei benodi (2013/14). Bu rhywfaint o symleiddio ac mae'r rheolwr yn cynyddu atgyfeiriadau porthgadw. Bu oediadau wrth neilltuo yn 2012/13 y mae'r newidiadau hyn yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

Mae pennaeth y gwasanaeth yn ein hysbysu y darperir gwybodaeth eglur i weithwyr cymdeithasol am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael. O ystyried y trosiant staff, mae'n bosibl bod lefel y ddealltwriaeth wedi gostwng yn ystod y flwyddyn. Hefyd, nid oedd meini prawf cymhwyso yn eglur pan oedd rhestrau aros mewn un tîm cymorth yn arwain at achosion yn cael ei neilltuo i un arall.

Mae'r gwasanaeth maethu mewnol yn sylweddol ac fe'i harolygwyd gan AGGCC ym mis Hydref 2012. Nodwyd rheolaeth gref a mwy o sefydlogrwydd ymhlith y staff yn y tîm hwn, er bod trosiant mewn rhannau eraill o'r gwasanaethau i blant yn cael effaith. Disgwyliwyd i adolygiadau gofawyr maeth gael eu cwblhau'n fwy prydlon.

Bu gostyngiad sylweddol i'r gwario ar leoliadau y tu allan i'r awdurdod. Gorwariwyd y gyllideb ar gyfer maethu y tu allan i'r ardal er mai gostyngiad fu'r duedd. Fodd bynnag, gostyngodd Casnewydd faint mae'n ei wario ar leoliadau preswyl y tu allan i'r awdurdod ar gyfer pobl ifanc.

Mae Casnewydd yn parhau i gynnal stoc awdurdod lleol cymharol uchel o bedwar cartref preswyl i blant. Mae arolygiadau diweddar o'r ddau gartref mwyaf wedi canfod timau staff sefydlog sy'n barod iawn i ddweud bod eu pwyslais ar ganlyniadau da i'r plant y maent yn gofalu amdanynt. Rydym yn deall y gallai fod newid i oruchwyliaeth uwch reolwyr o'r ddarpariaeth yn 2013/14 ac rydym yn ymwybodol o adolygiad ehangach o'r dulliau therapiwtig a ddefnyddir yn y lleoliadau. Mae hyn ar yr un pryd â datblygiad tîm therapiwtig. Rydym hefyd yn ymwybodol o gŵyn Cam 3 sy'n arwain at adolygiad o arfer. Mae'r rhain yn feysydd yr hoffem ddarganfod mwy amdanynt yn ystod 2013/14.

Mae'r cyfarwyddwr yn ystyried y potensial ar gyfer uned arall i blant ag awtistiaeth gael ei darparu gan yr awdurdod lleol yn y dyfodol. Os gellir sefydlu darpariaeth leol briodol o ansawdd uchel i blant a gwneud arbedion pellach o'r gyllideb y tu allan i'r awdurdod, yna byddai hon yn strategaeth gadarnhaol.

Meysydd o gynnydd

- Datblygiad tîm therapiwtig ac adolygiad o ddarpariaeth breswyl, yn canolbwyntio ar ddulliau therapiwtig.

Meysydd i'w gwella

- Gwella'r broses o nodi a darparu cymorth i ofalwyr ifanc.
- Sicrhau y cynhelir safonau uchel yng nghartrefi gofal i oedolion yr awdurdod lleol ac ymateb yn brydlon pan nodir diffyg cydymffurfiaid.
- Sicrhau y cynhelir safonau uchel mewn timau gofal cartref awdurdodau lleol ac ymateb yn brydlon pan nodir diffyg cydymffurfiaid.
- Sicrhau y cesglir data'n gywir i ddarparu tystiolaeth o'r ddarpariaeth o wasanaethau i ofalwyr.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Bydd oediadau i adolygiadau o gynlluniau gofal yn effeithio ar sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal mwyaf priodol. Mae oediadau wrth ryddhau o'r ysbyty neu amseroedd aros hir am asesiadau ar gyfer addasiadau yn amharu ar gynnydd pobl o ran gwella neu ail-alluogi.

Nodwyd amddiffyn oedolion fel maes o risg gennym y llynedd. Rydym yn credu y bu gwelliant ac rydym bellach o'r farn bod trefniadau i amddiffyn oedolion yng Nghasnewydd yn gweithio'n dda yn gyffredinol.

Gweithiodd yr awdurdod lleol yn dda mewn cydweithrediad ag AGGCC a'r adran iechyd yn 2012/13 i wella'r canlyniadau i bobl sy'n byw mewn cartref gofal sector annibynnol trwy sicrhau ei fod yn cau. Byddai gennym ddiddordeb mewn gwybodaeth am ganlyniadau parhaus i'r rhai a symudodd gartrefi ar yr adeg honno.

Plant

Amlygwyd y llynedd nad oedd cynllun plant mewn angen un o bob tri phlentyn yn cael ei adolygu'n unol â'r amserlenni. Bu gwelliant sylweddol yn 2012/13, pan adolygwyd yr holl gynlluniau, a dylai hyn gael effaith gadarnhaol trwy ddarparu canolbwynt eglur ar gyfer cefnogi gwaith cymdeithasol.

Roedd yr holl gynlluniau gofal wedi'u sefydlu ar gyfer plant a ddechreuodd dderbyn gofal y llynedd ac roedd gan yr holl bobl ifanc a ddylai fod â chynllun ar gyfer parhad, gynllun o'r fath. Roedd gan y rhai a oedd yn gadael gofal gynlluniau llwybr. Cynhelir archwiliadau iechyd a deintyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan sicrhau y diwellir yr anghenion hyn. Mae ffigurau presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn dda, ond dyblwyd yr achosion o blant sy'n derbyn gofal yn newid ysgolion ers 2011/12. Mae'r cyfarwyddwr wedi esbonio bod y cynnydd hwn oherwydd newidiadau hanfodol a gynlluniwyd i sicrhau lleoliadau parhaol i nifer fawr o blant. Caiff y tueddiad ar gyfer 2013/14 ei adolygu gan AGGCC yn ystod y cyfarfodydd ymgysylltu nesaf.

Mae plant a phobl ifanc yn debygol iawn o fod â gweithwyr cymdeithasol neu gynghorwyr personol neilltuedig, ar bob pwynt yn y system, a chynhaliwyd ymweliadau statudol. Fodd bynnag, mae'r trosiant uchel ymhlith aelodau staff rheng flaen yn golygu bod gweithwyr cymdeithasol yn newid yn aml. Mae hyn yn gofyn i bobl ifanc "adrodd eu hanes" eto ac yn cynyddu'r perygl o golli gwybodaeth berthnasol. Mae'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd yr unigolyn ifanc yn ymroi i berthynas gyda gweithiwr cymdeithasol. Hefyd, efallai na fydd gweithwyr cymdeithasol yn gallu gwneud penderfyniadau lefel isel cyflym oherwydd diffyg cymharol mewn profiad a gwybodaeth am y plentyn. Gallai hyn effeithio ar fywyd beunyddiol a chanlyniadau i bobl ifanc.

Mae'r adroddiad blynyddol statudol yn disgrifio cyfradd atgyfeirio is a llai o allu yn y TCDI yn 2012/13. Penodwyd rheolwr tîm newydd, a'r gobaith yw y bydd hyn yn cryfhau gweithrediad y tîm eleni. Fodd bynnag, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i effaith cyflwyno hyn ledled Gwent.

Disgrifir y gwerthusiad o'r GCDI yn adroddiad trosolwg 2012/13. Mae hwn yn cyflwyno tystiolaeth gref o adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chytundeb gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr bod cynnydd wedi ei wneud o ran yr amcanion a nodwyd gan deuluoedd. Mae'r adroddiad yn cydnabod nad yw cynhaliaeth fwy hirdymor o ganlyniadau wedi ei gwerthuso eto. Hefyd, bwriedir monitro effaith gwaith ataliol ar droseddau ieuencid dilynol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cynhaliwyd adolygiad o'r boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal mewn sampl bychan o awdurdodau lleol ledled Cymru (gan gynnwys Casnewydd) yn ystod y flwyddyn gan Cordis Bright. Mae ei adroddiad yn argymhell prosesau sicrhau ansawdd ac adolygu mwy cadarn o wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Byddem yn cytuno bod gwaith dilynol ar newid ystyrion a hirdymor yn bwysig. Bydd gwerthuso parhaus yn cynorthwyo adolygiadau achlysurol o'r dull cyffredinol o ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd a lefel y buddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth a rheoli risg yn ddiogel.

Nid oes system werthuso benodol wedi ei sefydlu ar gyfer gwaith y tîm plant anabl ond dywedwyd wrthym y bydd hyn yn cael ei ystyried yn 2013/14.

Mae cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol yn dueddol o gael eu cynnal yn brydlon er bod data'n dynodi nad yw cyfarfodydd grŵp craidd dilynol bob amser yn cael eu cynnal yn unol â'r amserlenni disgwylidig ac mae perfformiad y cyngor yn wan o'i gymharu â chynghorau eraill.

Meysydd o gynnydd

- Trefniadau amddiffyn oedolion.
- Adolygiadau o gynlluniau plant mewn angen.

Meysydd i'w gwella

- Adolygiadau o gynlluniau gofal i oedolion.
- Datblygu mesurau canlyniad ar gyfer plant anabl.
- Achosion o newid ysgolion ymhlith plant sy'n derbyn gofal.
- Cyfarfodydd grŵp craidd prydlon.

GALLU

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol:

Mae Casnewydd yn dangos ymwybyddiaeth o'r diwygio lles sydd ar fin digwydd ac wedi ymgynghori ag asiantaethau rhanddeiliaid. Mae Casnewydd yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru o ran dangosyddion tlodi ac amddifadedd. Er y ceir amcanestyniad poblogaeth sefydlog ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, bydd newidiadau i fudd-daliadau yn effeithio ar bobl ifanc a theuluoedd ac felly ar y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydym yn deall bod asesiad corfforaethol drafft a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r cyngor a'i fod yn mynegi pryder nad yw Casnewydd yn cyrraedd ei dargedau ariannol. Dywed y cyfarwyddwr y gorwariwyd yn 2012/13; cydbwyswyd gorwario mwy yn y gwasanaethau i oedolion i ryw raddau gan arbedion yn y gwasanaethau i blant. Mae hyn yn erbyn cefndir o darged o arbedion parhaus. Bydd aelodau staff y gwasanaethau cymdeithasol yn derbyn gwerthusiadau swydd yn 2013/14 sydd â'r potensial o arwain at gynnydd i wariant ar y gyflogres.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn mynegi hyder y gellir darparu gwasanaethau gwell yn rhatach yn 2013/14. Yn gyffredinol, mae hyn yn cynnwys bwriad i leihau nifer y plant ac oedolion mewn gofal preswyl, galluogi pobl, newid disgwyliadau o wasanaethau a chynyddu gwasanaethau ymyrraeth gynnar. Cydnabyddir hefyd, fodd bynnag, y bydd costau'n cynyddu pan mai'r rhai sy'n dal i fod angen gwasanaethau uniongyrchol yw'r rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Dywed aelodau staff rheng flaen mai'r her fwyaf sy'n wynebu'r gwasanaethau i blant yw'r trosiant staff uchel a lefel y swyddi gwag mewn timau. Mae hyn yn enwedig yn y swyddi allweddol uwch ymarferwyr a rheolwyr tîm. Mae'r lwfans grymoedd y farchnad yn dal i fod ar waith ond mae'n ymddangos nad yw'r arwyddion o welliant a nodwyd yn adroddiad AGGCC ym mis Chwefror 2013 wedi parhau'n ddigonol. Mae'r diffyg dyrchafiadau i aelodau staff mewnol yn amlwg ar bob lefel ac yn dangos bwlch sylweddol yn y gweithlu o ran sgiliau/profiad. Mae hyn wedi arwain at ddibyniaeth ar aelodau staff asiantaeth ar lefel rheolwr tîm.

Mae gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso yn dal i elwa o hyfforddiant mewnol. Fodd bynnag, mynegwyd llai o sicrwydd gan dimau o ran cyfleoedd

hyfforddiant gweithlu i aelodau staff rheng flaen mwy profiadol. Mae'n ymddangos y bu rhai problemau yn yr adran hyfforddiant sydd wedi eu datrys bellach.

Thema gyffredin a gododd o drafodaethau gydag aelodau staff ar bob lefel oedd bod llwythi achosion mawr a chymhleth yn cyfrannu ar broblemau cadw staff. Yn ôl data perfformiad ar gyfer 2012/13, mae llwythi achosion gwasanaethau i blant Casnewydd yn debyg i gyfartaledd Cymru ac yn llai nag awdurdod cyfagos. Fodd bynnag, ceir tybiaeth bod crynodiad o ddefnyddwyr gwasanaeth â phroblemau ymddygiad ymosodol ac alcohol yn cyfrannu at straen a llwyth gwaith aelodau staff.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol gwneud mwy o ddefnydd o gyfweiliadau gadael gydag aelodau staff i archwilio'r rhesymau y mae pobl yn eu rhoi am adael, gan nad yw'r rhain yn ymddangos yn eglur iawn. Efallai y byddai yr un mor briodol ystyried yr hyn sy'n golygu profiad mwy cadarnhaol i weithwyr. Gwnaeth rheolwyr ac aelodau staff y tîm 16 oed a hŷn a'r tîm plant anabl argraff arnom drwy eu brwdfrydedd, eu hathroniaeth ymyrraeth eglur a'u pwyslais cryf ar blant. Ynghyd â hyn, mae adroddiad trosolwg y GCDI yn nodi mai'r berthynas mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei datblygu gyda'u gweithwyr cymdeithasol sy'n effeithio fwyaf arnynt. O ystyried bod hwn hefyd yn debygol o fod yn ffactor cadarnhaol i'r gweithiwr, un agwedd bosibl i'w hymchwilio o ran materion cadw staff yw lefelau bodlonrwydd gweithwyr cymdeithasol gofal plant rheng flaen pan fo cyfeirio at wasanaethau cymorth wedi lleihau eu hymgysylltiad â gwaith ymyrryd uniongyrchol.

Bu swyddi gwag yn y GCDI a'r TCDI hefyd sydd wedi effeithio ar allu a darpariaeth; er yr ystyrir bod ansicrwydd o ran hyd cyflogaeth aelodau staff wedi bod yn ffactor i'r gweithwyr hyn.

Ceir ymwybyddiaeth o newidiadau i gyfraith gyhoeddus ac mae'r arweinyddiaeth wedi newid pwyntiau trosglwyddo rhwng timau i gyd-fynd â hyn orau. Mae'r buddsoddiad ariannol a lefel yr integreiddiad gyda Barnardo's yn sylweddol a byddai effaith colli'r cytundeb contract hwn yn sylweddol i'r ddarpariaeth o wasanaethau ataliol y cyngor.

Ceir trosiant staff cymharol isel yn y gwasanaethau i oedolion ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod aflonyddwch ymhlith aelodau staff a achoswyd gan lwfans marchnad a roddwyd i aelodau staff gofal plant wedi tawelu yn ystod 2012/13 ac mae aelodau staff yn edrych ymlaen at yr ymarfer gwerthuso swyddi sydd ar fin cael ei gynnal.

Meysydd o gynnydd

- Ysbryd aelodau staff yn y gwasanaethau i oedolion.

Meysydd i'w gwella

- Trosiant ac ysbyrd aelodau staff yn y gwasanaethau i blant.

Darparu cyfeiriad:

Mae'r newid i'r arweinyddiaeth yn y rhan fwyaf o'r swyddi uchaf yng ngwasanaethau cymdeithasol Casnewydd yn nodweddiadol o 2013. Penodwyd prif weithredwr newydd yn 2013 ac mae'n dod â lefel newydd o her ac ymchwiliad i'r cyngor. Gallai contract dros dro y cyfarwyddwr effeithio ar sefydlogrwydd, er ei fod yn cynnig parhad o ran arweinyddiaeth, oherwydd y penodiad mewnol. Nid yw'n ymddangos bod y newid i'r arweinyddiaeth yn amharu ar weledigaeth. Mae'r arweinyddiaeth yng Nghasnewydd wedi croesawu'r agenda ar gyfer cydweithredu ac integreiddio a amlinellwyd yn y Papur Gwyn a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Er bod aelodaeth o rai partneriaethau'n cael ei hadolygu (prosiect Eiddilwch Gwent) ac nad oes cyllid ar y cyd ar gyfer pennaeth y gwasanaethau i oedolion bellach, mae'r athroniaeth sy'n sail i weithio mewn partneriaeth yn dal i fod yn gryf.

Mae'r cyfarwyddwr wedi nodi cyd-nerthu cymunedol fel y thema fawr nesaf. Mae hyn yn cysylltu â'r pwyslais ar alluogi, ymyrraeth gynnar, partneriaethau trydydd sector, lleihau poblogaethau preswyl a newid disgwyliadau pobl o ofal cymdeithasol statudol yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant. Fel y dywedodd, mae'r strategaeth hon yn cynnwys goddefiad cymharol uchel o risg.

Mae pennaeth y gwasanaeth a'r cyfarwyddwr wedi cyfeirio at ailystyried gweledigaeth y gwasanaethau i oedolion drwyddi draw yng Nghasnewydd ac mae dogfen ddrafft ar gael sy'n amlinellu'r weledigaeth hon. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r holl ddarpariaeth gyfredol a datblygu strategaeth gyffredin. Byddem yn disgwyl i safonau uchel gael eu cynnal yng nghartrefi gofal i oedolion yr awdurdod lleol wrth i hyn gael ei gyflawni.

Mae strategaeth Gwent ar gyfer oedolion ag anawsterau dysgu yn canolbwyntio'n gyfartal ar gynyddu byw cymunedol a dull sy'n canolbwyntio mwy ar ddinasyddion.

Disgrifiwyd ail-fodelu pennaeth y gwasanaethau i blant fel swydd integredig gyda Barnardo's (yn dod i rym o fis Gorffennaf 2013) fel y cam nesaf ar y daith gyda'r partner a ffefrir. Rydym yn ymwybodol y rhoddwyd ystyriaeth i reoli'r tebygolrwydd sylweddol o wrthdaro mewn buddiannau; codi "muriâu gwydr", fel y'u gelwir. Caiff effaith y datblygiad beiddgar ac arloesol hwn ei asesu y flwyddyn nesaf.

Rydym yn deall y bydd y cyngor yn adolygu ei drosolwg o addysg ym Mlaenau Gwent ym mis Medi 2013. Casnewydd sy'n arwain yn rhanbarthol ar gyflwyno TCDI ar draws awdurdodau lleol Gwent.

Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Lleol De-ddwyrain Cymru (BDLIDDdC) ym mis Ebrill 2013. Nid yw o fewn amserlen yr adroddiad hwn felly ac mae'n rhy gynnar i werthuso ei effaith a'i effeithiolrwydd. Roedd Casnewydd yn ymrwymedig i gadw nifer o grwpiau cysylltiedig penodol i Gasnewydd sydd dan lefel y bwrdd. Caiff rhyngwyneb a chylch gwaith y grwpiau hyn eu hystyried y flwyddyn nesaf. Bydd angen cyflawni trefniadau ariannol yn gyflym i sicrhau rheolaeth effeithiol.

Mae'r pwyllgor craffu wedi mynegi pryder oherwydd y gostyngiad i nifer yr oedolion a dderbyniodd wasanaethau yn 2012/13 ac mae meini prawf cymhwyso yn debygol o gael eu hystyried eto. Ystyrir bod trefniadau craffu ar y gwasanaethau i oedolion yn gadarn, ond efallai bod llai o herio ar y gwasanaethau i blant. Yn gyffredinol, mae'r cyfarwyddwr yn teimlo bod cefnogaeth drawsbleidiol dda i'r agenda gofal cymdeithasol.

Meysydd o gynnydd

- Cynhyrchu strategaeth gyffredin ddrafft ar gyfer y gwasanaethau i oedolion.

Meysydd i'w gwella

- Sefydlogrwydd o ran trefniadau contract i'r cyfarwyddwr.
- Sicrhau bod unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â phenodi pennaeth y gwasanaethau i blant yn cael eu hasesu a'u lliniaru'n briodol.